Comisiwn Dylunio Cymru

Penodi Comisiynwyr/ Aelodau o'r Bwrdd

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

DESIGN COMMISSION FOR WALES
COMISIWN DYLUNIO CYMRU

The Commissioner for Public Appointments

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir – Beth yw rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Dylunio Cymru?	2
Manyleb y Person - Am bwy rydym yn chwilio	4
Ffeithiau allweddol – Gwybodaeth bellach	6
Sut mae gwneud Cais?	8
Manylion Cyswllt	10
Atodiad A: Y broses ddethol	11

Cyflwyniad

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn chwilio am Gadeirydd newydd a hyd at dri Chomisiynydd newydd i ymuno â Bwrdd Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW Ltd).

Diolch i chi am eich diddordeb ym mhenodiad hyd at dri Chomisiynydd newydd i'r Comisiwn Dylunio. Yma gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth i'ch helpu i wneud cais a deall mwy am y swydd a'r broses benodi. Gwneir pob penodiad drwy broses gystadleuaeth agored a'u rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Rydym yn chwilio am eich help gyda gweledigaeth y Comisiwn Dylunio ar gyfer Cymru sy'n lle gwell. Os ydych yn poeni am ddyluniad y byd o'ch cwmpas ac yn credu y dylai dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru fod yn lleoedd gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddynt, rydym am glywed gennych.

Rydym yn chwilio am hyd at dri unigolyn i ymuno â'i fwrdd fel Comisiynwyr o'r 1 Ebrill 2024 ymlaen, i ychwanegu safbwyntiau newydd a chyd-fynd a'r aelodau presennol.

Rydym yn eich gwahodd i wneud cais i gael eich penodi i helpu i lywio ein cyfeiriad strategol a bod yn llysgenhadon dylunio da yng Nghymru.

Er nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gwneud cais feddu ar brofiad blaenorol o'r bwrdd neu weithio'n uniongyrchol yn y proffesiynau dylunio, mae holl aelodau bwrdd y Cyngor yn rhannu gwir ddiddordeb ac angerdd dros ddylunio da yn yr amgylchedd adeiledig.

Fe welwch lawer o wybodaeth yn y pecyn hwn, gan gynnwys y rhinweddau a'r sgiliau penodol yr ydym yn chwilio amdanynt wrth recriwtio ar gyfer y swyddi hyn. Rydym am sicrhau bod gennych bopeth sydd ei angen arnoch i wneud cais felly cofiwch y byddwch yn cael eich cefnogi gan aelodau o'r bwrdd presennol a thîm staff gwych. Wrth baratoi ar gyfer eich cais cewch gyfle (os dymunwch) i gwrdd â Chomisiynwyr a staff presennol y Cyngor a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Rydym yn hyderus bod rhai pobl broffesiynol brwdfrydig ac ysbrydoledig dros yr amgylchedd adeiledig ac sy'n ddawnus tu hwnt all ychwanegu dimensiwn newydd at Gomisiwn Dylunio Cymru. Cysylltwch â ni os yw hyn yn swnio fel chi.

Y Cefndir
Beth yw rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Dylunio Cymru?

Sefydlwyd y Comisiwn Dylunio yn 2002 gan Lywodraeth Cymru fel corff cyhoeddus sy'n gweithio ledled Cymru i helpu i'w wneud yn lle gwell.

Rôl y Comisiwn yw hyrwyddo dylunio da ar gyfer ein lleoedd, adeiladau a mannau cyhoeddus a chyfleu buddion dylunio da i bawb.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru hefyd yn darparu Gwasanaeth Adolygu Dylunio ar gyfer cynlluniau datblygu ledled Cymru, sydd ar gael i'r holl awdurdodau lleol, cleientiaid, datblygwyr ac aelodau'r cyhoedd. Mae'r Comisiwn yn cynnig mewnbwn a'r camau cyntaf i ychwanegu gwerth at gynigion datblygu ynghyd â Chymorth a Hyfforddiant pwrpasol i Gleientiaid i helpu i feithrin gallu ynghyd â gwasanaethau datblygu eraill i awdurdodau lleol sy'n canolbwyntio ar gynllunio a chyflawni prosiectau ac ymwybyddiaeth ehangach o ddylunio. Mae digwyddiadau a chyhoeddiadau ymhlith gwasanaethau'r Comisiwn hefyd ac yn helpu i hyrwyddo gwerth dylunio da ym mhob ffordd.

Fel tîm, mae'r Comisiwn Dylunio yn gweithio gyda chydweithwyr ym meysydd dylunio trefol, pensaernïaeth a dylunio tirwedd, peirianneg sifil, gwasanaethau adeiladu a'r proffesiynau amgylcheddol ehangach sy'n ymwneud â llunio cefn gwlad, dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru. Mae'r tîm yn trafod ag aelodau'r cyhoedd, rhanddeiliaid, cyrff proffesiynol, awdurdodau lleol, cleientiaid unigol a chyrff comisiynu, wrth gynllunio, adfywio, creu seilwaith ynni a thrafnidiaeth, i sicrhau bod eu cymorth ar gael ledled Cymru.

Mae gan dîm y Comisiwn Dylunio sylfaen wybodaeth eang ac mae'n gwerthfawrogi'r berthynas sydd ganddynt â'r bwrdd; mae pob un ohonynt yn helpu i'w harwain fel hyrwyddwyr ac eiriolwyr dros ddylunio da yng Nghymru.

Beth mae Comisiwn Dylunio Cymru yn bwriadu ei wneud?

Mae'r Comisiwn yn hyrwyddo dylunio da, yn seiliedig ar ei nodau strategol, fel a ganlyn:

- Hyrwyddo safonau uchel o ddylunio a phensaernïaeth i'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru drwy hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o faterion dylunio a phwysigrwydd safonau da wrth wella'r amgylchedd adeiledig ar draws pob sector.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â Chynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, hyrwyddo arfer gorau mewn effeithlonrwydd ynni, gwaredu gwastraff a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Hyrwyddo arferion dylunio sy'n gydnaws â'r safonau uchaf mewn perthynas â hyrwyddo cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol.
- Rhoi sylw dyledus i hyrwyddo rhagoriaeth mewn datblygiadau o ddydd i ddydd, fel ystadau tai ac unedau diwydiannol, yn ogystal â hyrwyddo rhagoriaeth mewn prosiectau mwy amlwg.

I gael rhagor o wybodaeth am y Comisiwn Dylunio, ewch i **dcfw.org** neu cysylltwch â Phrif Weithredwr y Comisiwn Dylunio, Carole-Anne Davies ar **02920 45 1964** neu **07779 802784** neu drwy e-bost ar **cad@dcfw.org**.

Ein Bwrdd

Ar hyn o bryd mae gan Fwrdd y Comisiwn Dylunio wyth Comisiynydd, gan gynnwys y Cadeirydd. Bydd tri Chomisiynydd a'r Cadeirydd yn dod â'u cyfnodau yn y swydd i ben cyn bo hir a bydd penodiadau newydd yn cael eu gwneud yn eu lle fel rhan o'r broses benodi hon. Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan allweddol o ran eirioli gwaith y Comisiwn Dylunio, gofalu am lywodraethu a gwella cysylltiadau cyhoeddus.

Tîm Staff – Pwy fydd yn eich cefnogi

Arweinydd Tîm Staff y Comisiwn Dylunio yw Carole-Anne Davies fel Prif Weithredwr. Mae ystod y gwaith a wneir gan y Comisiwn Dylunio yn eang; felly, mae'r rheolwyr o ddydd i ddydd yn cael eu rheoli gan y Prif Weithredwr a'r Tîm. Os cewch eich penodi'n Gadeirydd neu Gomisiynydd, mae'r tîm staff yma i'ch cefnogi a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi. Mae Comisiynwyr presennol yn mwynhau yr hyn maen nhw'n ei wneud ac am rannu eu gwaith gwerth chweil. Gall Comisiynwyr Newydd ddod â phrofiad, egni a syniadau newydd i waith y Comisiwn Dylunio, gan helpu i gyflawni eu cyfeiriad strategol.

Am beth rydym yn chwilio?
Disgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer rôl Aelodau'r Bwrdd (Comisiynwyr)

Rydym yn chwilio am hyd at dri aelod newydd o'r Bwrdd (Comisiynwyr) i ymuno â ni.

Rôl a chyfrifoldebau

Fel Comisiynydd, byddwch yn eistedd ar Fwrdd y Comisiwn Dylunio a disgwylir i chi weithredu fel llysgennad dros y Comisiwn Dylunio a'i waith. Byddwch yn awyddus i chwarae rhan mewn llywodraethu da ac eirioli pwysigrwydd dylunio da ar gyfer amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel yng Nghymru. Byddwch yn ymdrechu i hyrwyddo y Comisiwn Dylunio, ei weithgareddau a'i anghenion i gynifer o unigolion a chyrff â phosibl er mwyn gwella proffil a phwrpas y sefydliad.

Mae'r Cadeirydd a'r Comisiynwyr yn gyfrifol ar y cyd am gytuno ar gyfeiriad strategol y Cyngor a gweithredu er budd llwyddiant y sefydliad.

Nod y broses benodi yw caniatáu aelodau newydd y bwrdd i ymgyfarwyddo â gweithrediad y sefydliad gan fynychu ac arsylwi ar gyfarfodydd bwrdd a digwyddiadau eraill.

Manyleb y person

Nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n ymuno â ni feddu ar brofiad blaenorol o'r Bwrdd na gweithio'n uniongyrchol yn y sector dylunio. Rydym yn chwilio am geisiadau gan bobl chwilfrydig, sy'n awyddus i gynyddu a chyfleu eu dealltwriaeth, o faterion dylunio.

Rydym yn awyddus i benodi unigolion sy'n gallu dangos y meini prawf ***hanfodol*** canlynol:

- Ymwybyddiaeth a brwdfrydedd dros greu lleoedd, dylunio a phensaernïaeth dda yn yr amgylchedd adeiledig (ond nid o reidrwydd fel ymarferydd) gyda'r gallu i weithredu mewn maes rhyngddisgyblaethol;
- Diddordeb a'r gallu i ymgymryd ag arweinyddiaeth, eiriolaeth, rheoli a llywodraethu;
- Y gallu i gyfathrebu a dylanwadu ar bob lefel;
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt, ac ymrwymiad i herio arferion gwahaniaethol;
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus fel yr adlewyrchir yn safonau Nolan.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion sy'n gallu dangos y meini prawf ***dymunol*** canlynol ar gyfer penodi:

- Gwybodaeth am lywodraethu corfforaethol, cyllid a chyfathrebu
- Gwybodaeth am y rhyngwyneb rhwng pensaernïaeth, peirianneg a dylunio trefol sy'n berthnasol i drafnidiaeth, ynni a mathau eraill o seilwaith.
- Gwybodaeth am arferion a strategaethau dylunio sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio a pherfformiad amgylcheddol uchel.

Hyd yn oed os nad ydych yn bodloni'r holl feini prawf dymunol, mae gennym ddiddordeb clywed gennych, beth bynnag fo'ch cefndir. Rydym eisiau gwybod sut y gallai eich diddordebau a'ch sgiliau gyfrannu at ein gwaith, boed o brofiad yn eich bywyd gwaith proffesiynol, eich busnes eich hun, cymuned neu fel gwirfoddolwr.

Y Gymraeg

Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ***hanfodol*** ar gyfer hyd at un aelod newydd ac yn ***ddymunol*** ar gyfer hyd at ddau apwyntiad newydd, gyda'r sgiliau canlynol yn ofynnol:

Hanfodol

- **Darllen** - Yn deall yn llawn pob deunydd sy'n ymwneud â'r gwaith;
- **Ysgrifennu** - Yn gallu paratoi deunydd ysgrifenedig am bopeth sy'n ymwneud â gwaith;
- **Dealltwriaeth** - Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â gwaith; a
- **Siarad** - Rhugl.

Dymunol

- **Darllen** - Yn gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol a'u deall;
- **Ysgrifennu** - Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd;
- **Deall** – yn gallu deall rhannau o sgwrs elfennol;
- **Siarad** - Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg.

Ffeithiau allweddol
Gwybodaeth bellach

Lleoliad:
Mae'n debygol y bydd cyfarfodydd bwrdd yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd yn bennaf, ond hefyd mewn lleoliadau ledled Cymru ac ar-lein drwy gynhadledd fideo. Efallai y byddwch hefyd am fynychu digwyddiadau'r Comisiwn drwy gydol y flwyddyn mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru.

Ymrwymiad Amser:
Bydd angen i gomisiynwyr ymrwymo tua 2 ddiwrnod y mis i baratoi a mynychu cyfarfodydd bwrdd 4 gwaith y flwyddyn gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Hyd y penodiad:
Bydd y penodiadau yn para am gyfnod o dair blynedd i ddechrau. Mae'n bosibl y cânt eu hadnewyddu, ar yr amod bod canlyniadau unrhyw adolygiad yn foddhaol, hyd at gyfnod o ddau dymor ar y mwyaf.

Tâl cydnabyddiaeth:
Penodir comisiynwyr y Comisiwn Dylunio drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus ac maent yn gwasanaethu mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl fel Cyfarwyddwyr anweithredol y Comisiwn Dylunio. Mae gan gomisiynwyr hawl i gostau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol, y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Mae'r Comisiwn Dylunio yn Gwmni Cyfyngedig Preifat sydd wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr ac mae'n is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru. Comisiynwyr yw Cyfarwyddwyr y cwmni ac felly mae angen iddynt gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol. Darperir cefnogaeth a gwybodaeth yn hyn o beth gan fwrdd ehangach a staff y Comisiwn Dylunio.

Gwrthdaro Buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o'r Comisiwn Dylunio, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn y Comisiwn Dylunio.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael eu trafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd dyladwy

Caiff archwiliadau diwydrwydd dyladwy eu cynnal ar bob ymgeisydd gaiff eu dewis i ddod i'r cyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill o bosibl, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Sut mae gwneud Cais?

Mae'r uchod yn darparu gwybodaeth am rôl y Comisiynwyr, manyleb y person a rôl a chyfrifoldebau y Comisiwn Dylunio, tra bo'r Atodiad ynghlwm yn rhoi manylion am y broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: Penodiadau Cyhoeddus - Llywodraeth Cymru (tal.net)

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar y swydd wag ar gyfer penodi aelod a chliciwch ar 'Gwneud Cais ' yn y gornel ar waelod yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen i gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych wedi'u hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi wrth gyflawni amcan penodol. **Cynorthwywch y panel dewis trwy ddangos yn glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i faen prawf penodol. Mae'n arferol neilltuo paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.**

Peidiwch â gadael i'ch datganiad personol fynd yn fwy na dwy dudalen o hyd. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol.

Tystlythyrau
Rhowch enwau dau ganolwr (cyflogwr a phersonol). Byddwn yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	11 Rhagfyr 2023
Llunio rhestr fer:	14 Rhagfyr 2023
Cyfweliadau:	w/c 5 Chwefror 2024
Dyddiad Cychwyn:	1 Ebrill 2024

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau o fyrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn helpu'r byrddau i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod, yn gyffredinol, yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech warant o gyfweliad, cysylltwch â **penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.**

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â **penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru** gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:
Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: **penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru**

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Comisiynydd y Comisiwn Dylunio, cysylltwch â:
Y Comisiwn Dylunio
Ffôn: 07779 802784

Stuart Ingram
Llywodraeth Cymru
Ffôn: 03000 255040
E-bost: **Stuart.Ingram@gov.wales**

Os hoffech ragor o gymorth i ymgeisio am y swydd, cysylltwch â **penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.**.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:
www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A
Y Broses Ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad yn unig i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Neil Hemington, Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Gayna Jones, Cadeirydd y Comisiwn Dylunio (Aelod Panel y Comisiwn Dylunio) ac Ruth Marks fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gall eich cais gyrraedd "rhestr hir", yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r panel llunio rhestr fer ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol na fydd pob aelod o'r panel yn ystyried eich cais yn llawn yn y sefyllfa hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Rhagfyr pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Chwefror 2024. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau ar-lein ar MS Teams.

Bydd y panel ond yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf ar gyfer cyfweliad y mae o'r farn eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn anelu at roi cymaint o rybudd ag y gallwn o ddyddiad a lleoliad y cyfweliad i chi neu os yw am ei gynnal ar-lein. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dewis.

Cewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i Weinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Efallai y bydd y Gweinidog yn dewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ar gyfer y penodiad. Bydd yr ymgeiswyr sydd wedi eu cyfweld yn cael gwybod y newyddion diweddaraf gydol y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o Gomisiwn Dylunio Cymru, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am swydd, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu a hwy i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Cwestiynau
Os oes gennych gwestiynau am eich cais, e-bostiwch **PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru**.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, e-bostiwch **PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru**.

DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU